ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Llun 20fed Hydref 2003, am 2.00pm
Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn bresennol

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Alban Forster	Ymgynghori SLR Cyf
Steve Bool	CBS Pen-y-bont
Huw Jenkins	CBS Pen-y-bont
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Phil Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Peter Kendall	Cyngor Sir Caerfyrddin
Ruth Henderson	Dinas a Sir Abertawe
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Philip Marks	CYLCH
Carol Williams	Cyngor Sir Penfro / Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Cathy O'Brien	Uned Strategaeth Wastraff (Llywodraeth Cynulliad Cymru)

1. **Ymddiheuriadau**

Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Niall Reynolds	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Bleddyn Jones	Cyngor Sir Ceredigion

2. **Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain Gorffennaf 2003**

Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir ac nid oedd unrhyw materion yn codi.

3. **Nodiadau'r cyfarfod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a gynhaliwyd ar 23ain Medi 2003** - Nodwyd.

4. **Ymgynghoriad Cyhoeddus – Adroddiad gan Research & Marketing Cyf.**

Amlinellodd GW yn fyr cynnwys a chanlyniadau'r *Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Adroddiad Gwastraff Drafft Rhanbarthol De-orllewin Cymru* a gyflwynwyd gan Research & Marketing Cyf. Cadarnhawyd y bydd Research & Marketing Cyf. yn darparu cyflwyniad o'r ymchwil i gyfarfod y Grŵp Technegol / Fforwm Aelodau ar y cyd ar ddydd Llun 10fed Tachwedd.

Mynegodd CP er nad oedd amheuaeth am ansawdd yr ymchwil a'r Adroddiad Drafft, ei fod yn pryderu bod y brîff gwreiddiol wedi methu â tharo'r nod ac mai'r unig beth a gyflawnwyd oedd ymgynghoriad da ar wastraff bwrdeistrefol.

Dylid cyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol am yr adroddiad drafft i GW cyn gynted â phosib. **Gweithredu**: Pawb.

Gofynnwyd i *Atodiad Tabliadau yr Arolwg Post* gael ei ddosbarthu. **Gweithredu**: CM.

5. **Y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Drafft – Y cam nesaf**

Adroddodd GW ein bod yn dal i aros am ymateb oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. **Gweithredu**: AE i wirio.

Cynhaliwyd trafodaeth am yr ymateb manwl oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r gwrthymateb oddi wrth SLR. Dosbarthwyd copïau o'r ddau, felly ni chaiff ei ailadrodd. Nodwyd / cytunwyd ar y pwyntiau canlynol.

- Pwynt Bwled 1: **Gweithredu**: AF i gynnwys tabl;
- Pwynt Bwled 2: **Gweithredu**: AF i gynnwys data sydd bellach ar gael;
- Pwynt Bwled 3: Mae'r data sydd ar gael yn gyfyngedig. **Gweithredu**: AF i gynnwys cafeat sy'n nodi'r 'bylchau data' cyfredol;
- Pwynt Bwled 4: **Gweithredu**: AF i gynnwys data yn ôl ardal awdurdodau lleol;
- Pwynt Bwled 5: **Cytunwyd**: Ymchwilio i ffyrdd o gyflwyno meini prawf generig ar gyfer lleoliadau ac mae angen cydlynu'r ymagwedd hon ar draws Cymru. **Gweithredu**: GW.
- Pwynt Bwled 7: **Cytunwyd**: Mae angen i'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol gynnwys gofyniad lleiaf i gyflawni'r rhwymedigaeth i ddelio â'r gwastraff peryglus sy'n codi yn y rhanbarth. **Gweithredu**: GW i gysylltu ag Adrian Stewart er mwyn trafod y goblygiadau masnachol a chysylltu â Barry Hankey er mwyn trafod sefyllfa 'De Cymru'.

6. **Dyddiad y cyfarfod nesaf: GTRh / Fforwm Aelodau dydd Llun 10fed Tachwedd** - Nodwyd.

7. **Unrhyw Fusnes Arall**

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.